



Ein cyf/Our ref SF/CS/3885/14

Alun Ffred Jones AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Rhagfyr 2014

Annwyl Alun

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynghylch barn resymegol y Comisiwn Ewropeaidd ar warchod llamidyddion a lleihau'r allyriadau carbon sy'n cael eu rhyddhau o Orsaf Bŵer Aberddawan.

### **Gwarchod llamidyddion**

Ar 16 Hydref, rhannodd y Comisiwn Ewropeaidd ei barn resymegol â'r Deyrnas Unedig ar nifer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar gyfer llamidyddion yn y DU o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn llwyr ymrwymedig i roi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar waith yn llawn ac i gynnig safleoedd ar gyfer llamidyddion lle gallan nhw gael eu hadnabod yn unol â'n hymrwymadau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn parhau i geisio dod o hyd i ACAoedd posibl ar gyfer llamidyddion. I wneud hynny, mae'n defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn unol â'r meini prawf sydd yn y Gyfarwyddeb. Byddwn yn dadansoddi'r data diweddaraf am llamidyddion yn nyfroedd y Deyrnas Unedig, gyda'r nod o ddynodi ardaloedd cadwraeth arbennig ac yn cyhoeddi'r canlyniadau cyn diwedd y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio â gweinyddiaethau'r DU i ystyried gohebiaeth y CE ac i ateb y Comisiwn. Er mwyn gallu datrys y mater hwn gyda'r Comisiwn a chan fod natur y trafodaethau hyn yn gyfrinachol, ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw pellach ar hyn o bryd.

### **Allyriadau carbon o orsaf bŵer Aberddawan**

Trwy farn resymegol y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch rhoi Cyfarwyddeb 2001/80/CE ar waith yn y DU, sy'n ymdrin â lleihau allyriadau carbon rhai llygryddion i'r awyr o weithfeydd mawr neu'r Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Mawr, mae'r Comisiwn o'r farn nad yw

pwerdy llosgi glo Aberddawan ym Mro Morgannwg yn bodloni un o ofynion y Gyfarwyddeb hon sef lleihau allyriadau carbon nitrogen ocsid.

Mae'r Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Mawr yn pennu terfynau uchaf ar gyfer rhai allyriadau. Mae Atodiad VI y Gyfarwyddeb yn nodi'r gwerthoedd cyffredinol ar gyfer nitrogen ocsid. Pwerdy llosgi glo yw Aberddawan gyda chyfradd mewnbwn thermol o 4,135MWth. Mae'r Atodiad yn nodi mai'r terfyn allyriadau uchaf ar gyfer pwerdai hylosgi glo sydd â chyfradd mewnbwn thermol uwch na 500MWth yw 500mg/Nm<sup>3</sup>. Yn Nodyn (3) Rhan A o'r Atodiad, mae rhanddirymiad i'r terfyn allyriadau cyffredinol ar gyfer rhai mathau o weithfeydd hylosgi; uchafswm y terfynau ar gyfer allyriadau nitrogen ocsid y mathau hyn o weithfeydd yw 1,200mg/Nm<sup>3</sup>.

Cynhwyswyd y rhanddirymiad yn y Gyfarwyddeb am fod dyluniad pwerdy Aberddawan mor anarferol. Felly, mae ei drwydded amgylcheddol bob amser wedi ystyried y rhanddirymiad hwn. Terfyn presennol pwerdy Aberddawan ar gyfer allyriadau a nodir yn ei drwydded amgylcheddol yw 1,050mg/Nm<sup>3</sup>; mae hyn yn dangos bod datblygiadau wedi cael eu gwneud i ddefnyddio'r technegau gorau posibl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod y rhanddirymiad gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU yn ystyried barn resymegol y Comisiwn Ewropeaidd a byddan nhw'n ymateb i'r farn honno o fewn y cyfnod penodol i ymateb sef dau fis.

Yn sgil y trafodion cyfreithiol presennol, ni fyddai'n briodol mi roi manylion penodol i chi ar y mater hwn ar hyn o bryd ond fe hoffwn sicrhau'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â phob un o ofynion yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y trafodion hyn yn cael effaith fawr ar y DU ac yn enwedig ar Gymru, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i geisio dod o hyd i ateb derbyniol i'r mater hwn.

Yn Gywir



**Carl Sargeant AC**  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol